



BOD YN GEFN I RYWUN PAN FO ANGEN

Rhoi cefnogaeth gydag atwrneiaeth arhosol



BETH YW ATWRNEIAETH ARHOSOL?

Dogfen gyfreithiol yw atwrneiaeth arhosol (LPA). Mae'n galluogi unigolion i ddewis person maent yn ymddiried ynddo i wneud penderfyniadau ar eu rhan os daw adeg pan na fyddant yn gallu gwneud eu penderfyniadau eu hunain.

Gallai hynny fod yn sgil damwain, salwch, neu adeg mewn bywyd pan mae'n teimlo'n anodd gwneud penderfyniadau. Mae LPA yn golygu eu bod yn cadw rheolaeth drwy benderfynu pwy sy'n cael camu i mewn a phryd. Os ydych chi wedi cael y rôl hon, mae'n golygu bod y sawl sydd wedi eich dewis yn ymddiried ynoch chi i fod yno ar ei gyfer pan fo angen.

Mae dau fath o LPA. Gall y person rydych chi'n ei gefnogi fod ag un math o LPA, neu'r ddau.

LPA Iechyd a Llesiant

Mae'r LPA yma'n ymwneud â phenderfyniadau am ofal meddygol, trefn ddyddiol, a threfniadau byw yn y dyfodol. Dim ond os nad yw'r person yn gallu gwneud y penderfyniadau hyn ei hun y gellir defnyddio'r LPA.

LPA Materion Ariannol ac Eiddo

Mae'r LPA yma'n ymwneud â thalu biliau, rheoli cyfrifon banc neu bensiynau, a gwerthu cartref. Gellir ei ddefnyddio cyn gynted ag y bydd wedi'i gofrestru, gyda chaniatâd y person.

I greu LPA, mae angen i berson fod yn 18 oed neu'n hŷn ac yn gallu gwneud ei benderfyniadau ei hun adeg gwneud y cais. Rhaid i berson greu ei LPA ei hun — allwch chi ddim creu LPA ar ran unrhyw un.



Beth am 'berthynas agosaf'?

Efallai y bydddech chi'n disgwyl y byddai bod yn 'berthynas agosaf' yn rhoi'r gallu'n awtomatig i chi wneud penderfyniadau ar ran y bobl hynny sydd agosaf atoch chi, ond nid felly mae hi.

Heb LPA does neb, gan gynnwys aelodau'r teulu, yn cael gweithredu ar ran person os nad yw'r person hwnnw'n gallu gwneud penderfyniadau drosto'i hun. Mae hyn yn cynnwys cael mynediad at gyfrifon banc, gwneud dewisiadau am ofal, neu drin materion eraill. Mae LPA yn gwneud hyn oll yn bosibl.





BOD YN BAROD

Tra bo'r person rydych chi'n ei gefnogi (y rhoddwr) yn dal yn gallu gwneud ei benderfyniadau ei hun, fydd dim angen i chi wneud dim, fel arfer. Rydyn ni'n deall y gallai'r rôl newydd hon fod yn frawychus ar y cychwyn, ond dyma rai pethau syml y gallwch chi eu gwneud yn awr i deimlo'n fwy parod.

- **Cynllunio ymlaen llaw lle bo modd:** Sgwrsiwch yn agored am y pethau sy'n bwysig iddynt, gan gynnwys dewisiadau am ofal, arian, rhoi rhoddion, neu gynlluniau ar gyfer y dyfodol. Os ydych chi'n gwybod eu dymuniadau ar hyn o bryd, byddwch yn teimlo'n fwy hyderus os bydd angen i chi weithredu ar fyr rybudd neu mewn argyfwng.
- **Gwybod ble mae gwybodaeth bwysig yn cael ei chadw:** Manylion cyfrifon banc, pensïynau, eiddo, neu fanylion cyswllt allweddol, er enghraifft.
- **Gwybod sut i brofi eich rôl:** Gall gwasanaethau fel 'Defnyddio atwrneiaeth arhosol' neu gopiau ardystiedig wneud hyn yn haws.
- **Rhoi gwybod ymlaen llaw i sefydliadau:** Does dim rhaid i chi aros nes bod angen i chi ddefnyddio'r LPA. Gall rhoi gwybod yn awr i fanciau neu wasanaethau eraill fod yr LPA yn bodoli wneud pethau'n llawer haws pan ddaw'n bryd ei ddefnyddio.

Beth yw 'rhoddwr'?

Y rhoddwr yw'r sawl sydd wedi creu'r LPA.

i

BOD YN GEFN I RYWUN

Efallai y bydd angen i chi gamu i mewn os nad yw'r person rydych chi'n ei gefnogi yn gallu gwneud penderfyniadau drosto'i hun. Mae hyn yn cael ei alw'n 'golli galluedd meddyliol', a gall fod yn anodd barnu pryd yn union mae'n digwydd. Os nad ydych chi'n siŵr, gall gweithiwr gofal iechyd proffesiynol eich helpu.

Lle bynnag y bo modd, dylech gefnogi eich rhoddwr i wneud ei ddewisiadau ei hun. Cyn gweithredu ar ei ran, ystyriwch y pethau canlynol:

- **MEDDYLIWCH**

Ai dyma fyddai eich rhoddwr wedi'i ddymuno?

- **GWIRIWCH**

Allwch chi helpu eich rhoddwr i wneud y penderfyniad hwn drwy egluro pethau mewn ffordd wahanol – defnyddio lluniau, iaith symlach neu ddull gwahanol?

- **COFIWCH**

Rhaid i bob penderfyniad fod er lles gorau eich rhoddwr.

Mae'n bosibl y bydd angen i chi siarad â sefydliadau, rheoli arian, neu wneud penderfyniadau am ofal, yn dibynnu ar y math o LPA. Bydd treulio ychydig amser yn ystyried pob dewis yn eich helpu i deimlo'n fwy hyderus yn eich rôl.

Gall cadw cofnod o'r penderfyniadau rydych chi'n eu gwneud a'r arian rydych chi'n ei wario ar ran y person fod o gymorth hefyd. Gall hyn fod yn ddefnyddiol os bydd angen i chi gyfeirio'n ôl at y dewisiadau hyn yn nes ymlaen.



DEFNYDDIO LPA AR-LEIN

Ffordd syml a diogel o rannu eich rôl

Gallwch brofi eich bod yn atwrnai drwy rannu cod mynediad diogel yn hytrach na defnyddio copïau papur. Mae'n ffordd syml o ddangos i sefydliadau bod gennych chi'r hawl i weithredu.

Gall llefydd fel banciau a darparwyr gofal ddefnyddio'r cod i wirio eich rôl cyn rhannu gwybodaeth â chi. Mae hyn yn aml yn gyflymach a gall wneud pethau'n haws pan fydd arnoch chi angen cymorth ar fyrder.

I ddechrau arni, bydd angen allwedd actifadu arnoch. Bydd hon yn cael ei phostio atoch pan fydd yr LPA yn cael ei gofrestru. Os na allwch ddod o hyd iddi, gallwch ofyn am un newydd drwy'r gwasanaeth 'Defnyddio atwrneiaeth arhosol'.

Rhagor o wybodaeth: www.gov.uk/guidance/getting-started-with-use-an-lpa.cy

Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus /
Office of the Public Guardian
PO Box 16185
Birmingham
B2 2WH
United Kingdom

E-bost: customerservices@publicguardian.gov.uk

Ffôn: 0300 456 0300

Sganiwch am fwy o
ganllawiau ar LPA a bod
yn atwrnai

